# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mai 2020

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**(Rhag-gyfarfod Preifat)**

(13.00 - 13.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(13.30 - 15.00) (Tudalennau 1 - 18)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Shan Morgan - Ysgrifennydd Parhaol

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid

David Richards - Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg

Andrew Jeffreys - Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

**(Egwyl)**

(15.00 - 15.10)

## 3 Papur(au) i'w nodi

(15.10 - 15.30)

**3.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Trefniadau ar gyfer penodiadau staff uwch dros dro: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (17 Mawrth 2020)**

(Tudalennau 19 – 36)

**3.2 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad (18 Mawrth 2020)**

(Tudalennau 37 – 39)

**3.3 COVID-19: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (30 Mawrth 2020)**

(Tudalennau 40 – 43)

**3.4 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llythyr ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Ebrill 2020)**

(Tudalennau 44 – 47)

**3.5 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (21 Ebrill 2020)**

(Tudalennau 48 – 55)

**3.6 Cyfarwyddyd Gweinidogol – Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20: Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (23 Ebrill 2020)**

(Tudalennau 56 – 57)

## 4 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran gwaith Swyddfa Archwilio Cymru

(15.30 – 16.00) (Tudalennau 58 – 62)

PAC(5)-11-20 Papur 1 – Llythyr drafft at Brif Weithredwyr cyrff archwiliedig (i’w gyhoeddi ar 30 Ebrill 2020)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/183/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 17 Mawrth 2020

Annwyl Nick

## BIP Betsi Cadwaladr: trefniadau ar gyfer penodi staff uwch dros dro

Yn eich cyfarfod ar 11 Tachwedd, roeddwn i wedi dweud wrth y Pwyllgor fy mod yn bwriadu cynnal adolygiad archwilio o'r trefniadau roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'u rhoi ar waith wrth benodi nifer o staff uwch dros dro y llynedd.

Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau, ac, er gwybodaeth i'r Pwyllgor, amgaeaf gopi o'r adroddiad rwyf wedi'i roi i'r Bwrdd Iechyd ac a fydd yn cael ei ystyried gan ei Bwyllgor Archwilio ar 19 Mawrth.

Yn yr adolygiad, rwyf wedi edrych ar y pum penodiad canlynol:

- Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro;
- Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro - Ysbyty Maelor Wrecsam
- Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro - Ysbyty Glan Clwyd
- Pennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio;
- Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Acíwt.

Fodd bynnag, o gofio'r costau sylweddol oedd ynghlwm â phenodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro a'r sylw yr oedd hyn wedi'i ddenu, roedd f'adolygiad yn canolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer y penodiad hwnnw.

Yn gryno, dyma a ganfu fy nhîm archwilio:

- Roedd y Bwrdd Iechyd wedi recriwtio Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ym mis Mehefin 2019. Mae'r rôl wedi cael ei llenwi ers 1 Gorffennaf 2019 a bydd yn dod i ben ar 27 Mawrth 2020;
- Roedd pob un o'r pum penodiad dros dro wedi'i wneud gan ddefnyddio cwmnïau oedd wedi'u rhestru ar drefniadau fframwaith cymeradwy. Mae hyn yn cyd-fynd â'r darpariaethau sydd wedi'u nodi yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd a'i Ganllawiau Caffael i Staff.
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £350,000 tuag at gost y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ond nid oedd wedi chwarae unrhyw ran yn y

penodiad ei hun, penodiad roedd y Bwrdd Iechyd wedi’i wneud cyn i'r cyllid hwn gael ei gadarnhau. Nid oedd y penderfyniad i benodi yn dibynnu ar sicrhau’r cyllid ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru.

- Er bod y Bwrdd Iechyd wedi dweud wrthym ei fod wedi negodi cyfraddau cystadleuol ar gyfer y penodiad, rydym wedi canfod fod y gyfradd ddyddiol o £1,890 roedd y Bwrdd Iechyd yn ei thalu yn uwch na’r mwyafrif o gymaryddion meincnod roedd y swyddogion wedi’u defnyddio yn ystod y broses benodi.

Yn wahanol i’r pedwar penodiad dros dro arall, dim ond geirdaon ar lafar roedd y Bwrdd Iechyd wedi’u cael cyn penodi’r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro. Fodd bynnag, roeddem wedi nodi bod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd (ar y pryd) ac aelod annibynnol o’r panel cyfweld wedi cael profiad blaenorol o weithio gyda’r ymgeisydd llwyddiannus.

Mae ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2019, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn rhoi ychydig mwy o gyd-destun ar gyfer canfyddiadau’r adolygiad hwn:

- mae’n anodd dweud faint yn union o effaith y mae’r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn ei chael yn bersonol ar ymdrechion y Bwrdd Iechyd i adfer ei hun yn ariannol, o gofio bod staff ym mhob rhan o’r sefydliad yn cyfrannu at hyn mewn gwahanol ffyrdd. Mae sawl ffactor yn effeithio ar y sefyllfa, gan gynnwys gwahaniaethau o ran amseru a gwahaniaethau yn natur unrhyw arbedion ariannol (rhai yn arbedion untro ac eraill yn rhai rheolaidd).
- rydym wedi gweld arweinyddiaeth ariannol glir fel rhan o’r broses adfer, gyda chyfrifoldeb dros adferiad ariannol wedi’i ddirprwyo, a chyfleoedd i wneud arbedion yn cael eu hadnabod a’u cyflawni. Mae ffocws y Bwrdd Iechyd ar adferiad, gafael a rheolaeth ariannol yn gryfach nag o’r blaen.
- mae risg sylweddol o hyd o ran sicrhau’r diffyg o £35 miliwn y mae’r Bwrdd Iechyd am ei weld ar gyfer 2019-20. Mae’r Bwrdd Iechyd yn sôn am lithriant wrth geisio sicrhau’r arbedion sydd i fod i gael eu gwneud, ac o ran twf mewn costau yn ystod y flwyddyn, sydd wedi golygu bod angen dod o hyd i arbedion ychwanegol.
- mae llawer o ffactorau eraill yn dal i gyflwyno heriau, ac oni fydd y rhain yn cael sylw, byddant yn arwain at risg y bydd y cylch ariannol blynyddol o ddiffygion ac ymdrechion i adfer yn digwydd dro ar ôl tro.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i waith y Pwyllgor.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mis Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1782A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaethpwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, ystyrir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Hughes ac Andrew Doughton, yn gweithio o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

# Cynnwys

Roedd ein hadolygiad yn edrych ar y broses a ddilynodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i benodi pump uwch aelod o staff dros dro rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2019, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro. Arweiniodd cost sylweddol y penodiad hwnnw at sylw yn y wasg a diddordeb ymhlith Aelodau Cynulliad, ac roedd ein hadolygiad ni yn canolbwyntio ar y swydd hon.


Adroddiad cryno

Yr adolygiad hwn 4

Prif ganfyddiadau 4

Adroddiad manwl

Digwyddiadau'n arwain at benodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro 6

Cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd 8

Costau penodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro 10

Gwybodaeth arall a ystyriwyd fel rhan o'n hadolygiad 12

Cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran adferiad ariannol 12

Atodiadau

Atodiad 1 – crynodeb o'r costau oedd yn gysylltiedig â'r pump uwch benodiad a adolygwyd, ynghyd â'r telerau cyflogi oedd yn rhan o'u contract 14

# Adroddiad cryno

## Yr adolygiad hwn

1 Ar 11 Tachwedd 2019, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei fod yn bwriadu edrych ar y trefniadau yr oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) wedi'u defnyddio wrth benodi sawl uwch aelod o staff dros dro yn ystod y flwyddyn honno.

2 Mae ein hadolygiad wedi edrych ar y pum penodiad canlynol:

- Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro;
- Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, Wrecsam Maelor;
- Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, Ysbyty Glan Clwyd;
- Pennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio;
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Acíwt Dros Dro.

3 Mae Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o'r costau oedd yn gysylltiedig â phob un o'r penodiadau hyn, ynghyd â'r telerau cyflogi oedd yn rhan o'u contract.

4 Gan ystyried y costau sylweddol oedd yn gysylltiedig â phenodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, a'r sylw mae hyn wedi'i gael yn y wasg ac ymhlith Aelodau Cynulliad, y swydd hon oedd ffocws ein hadolygiad ni. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu cyfradd o £1,990 y dydd i'r asiantaeth oedd yn cyflenwi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ac roedd hynny'n cynnwys ad-daliad wedi'i gapio o £100 y dydd ar gyfer treuliau rhesymol a fyddai'n golygu bod yr unigolyn ar ei golled. Cychwynnodd deiliad y swydd yn y rôl ym mis Gorffennaf 2019, a disgwylir y bydd y contract yn dod i ben ar 27 Mawrth 2020. Y gost a glustnodwyd ar gyfer y penodiad hwn dros gyfnod o naw mis yw £340,200.

5 Drwy edrych ar benodiad pump uwch aelod o staff dros dro dros gyfnod tebyg, rydym wedi gallu cymharu a chyferbynnu'r prosesau a ddilynwyd, gan esbonio penodiad y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro mewn cyd-destun caffael ehangach.

## Prif ganfyddiadau

6 Mae'r adroddiad 'ffeithiau yn unig' hwn yn amlinellu'r prif faterion oedd yn gysylltiedig â phum penodiad y Bwrdd Iechyd rhwng mis Chwefror a mis Hydref 2019. Dyma grynodeb ohonynt:

- canfuwyd bod pob un o'r penodiadau dros dro wedi cael eu gwneud drwy ddefnyddio cwmnïau oedd wedi'u rhestru ar gytundebau fframwaith cymeradwy. Mae hyn yn cyd-fynd â'r darpariaethau yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd ac yn y Canllawiau Caffael ar gyfer Staff.
- roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £350,000 tuag at y gost o gyflogi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ond nid oedd wedi chwarae unrhyw ran yn y penodiad ei hun, oedd wedi cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd cyn i'r cyllid hwn gael ei gadarnhau. Nid oedd y penderfyniad i benodi yn ddibynnol ar sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru.

- er bod y Bwrdd Iechyd yn mynnu bod cyfraddau cystadleuol wedi cael eu trafod ar gyfer y penodiad, canfuwyd bod y gyfradd ddyddiol o £1,890 yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei thalu yn uwch na chyfraddau'r rhan fwyaf o'r cymaryddion meincnodi a ddefnyddiwyd gan y swyddogion yn ystod y broses benodi.
- yn wahanol i'r pedwar penodiad dros dro arall, dim ond geirdaon ar lafar a gafodd y Bwrdd Iechyd cyn penodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro. Serch hynny, rydym yn nodi bod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd (ar y pryd) ac aelod annibynnol o'r panel cyf-weld wedi cael profiad blaenorol o weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus. Hefyd, er mwyn cael eu cymeradwyo ar y Fframwaith, rhaid i bob cyflenwr gadw geirdaon cyfredol ar gyfer yr holl weithwyr a ddarperir.

7 Mae angen edrych ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn yng nghyd-destun y sylwadau canlynol a welir yn yr Asesiad Strwythuredig, a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2019:

- mae'n anodd dweud faint yn union o effaith bersonol y mae'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn ei chael ar ymdrechion y Bwrdd Iechyd i adfer ei hun yn ariannol, gan gofio bod staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn cyfrannu at hyn mewn gwahanol ffyrdd. Mae sawl ffactor yn effeithio ar y sefyllfa, gan gynnwys gwahaniaethau o ran amseru a gwahaniaethau yn natur unrhyw arbedion ariannol (rhai yn arbedion untro ac eraill yn rheolaidd).
- rydym wedi gweld arweinyddiaeth ariannol glir fel rhan o'r broses adfer, gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo ar gyfer adferiad ariannol a chyfleoedd i adnabod a sicrhau arbedion. Mae ffocws y Bwrdd Iechyd ar adferiad, gafael a rheolaeth ariannol yn gryfach nag o'r blaen.
- mae risg sylweddol o hyd i sicrhau'r diffyg o £35 miliwn y mae'r Bwrdd Iechyd am ei weld ar gyfer 2019-20. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sôn am lithriant wrth geisio sicrhau'r arbedion sydd i fod i gael eu gwneud, ac o ran twf mewn costau yn ystod y flwyddyn, sydd wedi golygu bod angen dod o hyd i arbedion ychwanegol.
- mae llawer o ffactorau eraill yn dal i gyflwyno heriau, ac oni fydd y rhain yn cael sylw, byddant yn arwain at risg y bydd y cylch ariannol blynyddol o ddiffygion ac ymdrechion i adfer yn digwydd dro ar ôl tro.

# Adroddiad manwl

## Digwyddiadau'n arwain at benodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro

8 Ym mis Mehefin 2015, rhoddodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd mewn 'mesurau arbennig' am nifer o resymau, gan gynnwys safon prosesau llywodraethu ac arwain y Bwrdd Iechyd, pryderon ynghylch gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau mamolaeth, yn ogystal â'r modd yr oedd yn cynllunio gwasanaethau ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

9 Ar 1 Chwefror 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gallai'r gwasanaethau mamolaeth gael eu dad-ddwysau ond fod angen i rai elfennau o berfformiad aros o dan y trefniadau 'mesurau arbennig'. Cydnabuwyd bod angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei arweinyddiaeth a'i brosesau llywodraethu yn ei dri safle acíwt.

10 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd swydd fewnol, sef Cyfarwyddwr Trawsnewid, i sicrhau bod costau'n cael eu harbed a bod arbedion effeithlonrwydd yn parhau i gael eu gwneud. Fodd bynnag, ni lwyddodd y trefniadau mewnol i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol. Roedd y diffyg ariannol yn cynyddu, a'r cynlluniau ar gyfer arbedion yn rhy syml ac eto'n rhy uchelgeisiol, ac nid oedd digon o gapasiti i gyflwyno'r cynlluniau tra bod pwysau ar wasanaethau eraill. Gyda Llywodraeth Cymru, penderfynwyd y byddai'n syniad da cyflwyno swydd arbenigol i helpu'r Bwrdd Iechyd â'i adferiad ariannol.

11 Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi craffu ar berfformiad a phrosesau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd, ac yn ei adroddiad ym mis Mai 2019, dywedodd y Pwyllgor:

- Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i gamau trawsnewid, ac er bod y Bwrdd wedi penodi Cyfarwyddwr Trawsnewid[1], rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd ystyried cyflwyno arbenigwyr allanol ychwanegol ar drawsnewid er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth.

12 Ar 19 Gorffennaf 2019, ysgrifennodd Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd (ar y pryd) at Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cynnig strwythur newydd ar gyfer gweithrediaeth ei sefydliad ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer cryfhau gallu a chapasiti. Roedd y cynlluniau newydd hyn yn deillio o waith yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'i wneud yn ddiweddar gyda chymorth PricewaterhouseCoopers (PWC).

[1] Cyfeiriad at benodiad mewnol a wnaethpwyd gan y Bwrdd Iechyd cyn penodi Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro allanol ym mis Mehefin 2019.

13 Gofynnodd y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru ddarparu £350,000 o gyllid 2019-20 ychwanegol tuag at y gost o gyflogi Cyfarwyddwr Adfer. Roedd llythyr y Prif Weithredwr yn dweud:

- mae angen i'r Cyfarwyddwr Adfer gael effaith arwyddocaol ac uniongyrchol ar ein cyfradd rhedeg ac ar Gynlluniau Gwella Costau dros y ddeufis nesaf er mwyn ein galluogi i sicrhau ein cyfanswm rheoli ariannol ar gyfer 2019-20.

14 Roedd atodiad i lythyr y Prif Weithredwr yn rhoi rhagor o fanylion am y rôl:

- Yn dilyn trafodaethau ag Uned Gyflawni Cyllid Llywodraeth Cymru ynghylch cryfhau'r broses drawsnewid, ynghyd ag argymhelliad gan PWC, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ei allu i drawsnewid pethau drwy drefnu i gael gwasanaethau ymgynghori gan Gyfarwyddwr Adfer. Bydd hyn am gyfnod o ddim mwy na 9 mis, hyd at ddiwedd Mawrth 2020, a'r nod yw ein galluogi i wella ein gwaith cyflawni ariannol fwy byth, a chefnogi'r broses o ddatblygu cynllun effeithlonrwydd ar gyfer y tymor hwy.

15 Atebodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 29 Awst 2019:

- Rwy'n llawn sylweddoli pa mor hanfodol yw'r gwaith adfer ariannol, a pha mor bwysig yw sicrhau arweinyddiaeth gadarn llawn ffocws er mwyn cyflawni hyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion, rwy'n fodlon mewn egwyddor cytuno i roi £350,000 tuag at gostau yn y maes pwysig hwn. Rwyf hefyd yn gefnogol, mewn egwyddor, i ddarparu'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer gwella gwasanaethau, ond mae angen rhagor o fanylion am eich methodoleg, sut mae'n cyd-fynd â'r cymorth ychwanegol sy'n cael ei dderbyn gan PWC ar hyn o bryd, a'r trefniadau pontio i ddatblygu eich gallu mewnol i gyflawni'r agenda trawsnewid.

16 Cyn yr ohebiaeth hon ddechrau Mehefin 2019, roedd PWC wedi darparu CV unigolion a allai gael eu hystyried ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro i'r Bwrdd Iechyd. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi llunio rhestr fer ac wedi cyf-weld tri pherson ar gyfer y rôl. Roedd y panel cyf-weld yn cynnwys unigolyn annibynnol gyda phrofiad proffesiynol perthnasol yn y maes hwn.

17 Ystyriodd y panel sgiliau a phrofiadau pob un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd. O blith y tri, yr ymgeisydd llwyddiannus ddangosodd y sgiliau mwyaf priodol o ran arddull a chefndir (clinigol) ar gyfer y rôl. Yn ogystal â hyn, roedd y ddau ymgeisydd arall yn gofyn am 'gyfnod sylfaenol' gydag unrhyw sefydliad yr oeddent yn ei gefnogi. Roedd y cyfnod sylfaenol hwn yn amrywio o 18 mis i ddwy flynedd.

18 Roedd y Prif Weithredwr oedd yn cadeirio'r panel cyf-weld wedi awdurdodi'r penderfyniad i benodi Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro drwy Hunter Healthcare Resourcing Ltd, asiantaeth a restrir ar gytundeb fframwaith y GIG. Byddai'r penodiad yn cychwyn ar 1 Gorffennaf 2019 ac yn dod i ben ar 27 Mawrth 2020. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid hefyd wedi cymeradwyo'r penodiad ac wedi llofnodi'r cytundeb gyda Hunter Healthcare Resourcing Ltd ar 17 Mehefin 2019.

19 Cytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu cyfradd o £1,990 y dydd i'r asiantaeth oedd yn cyflenwi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ac roedd hynny'n cynnwys ad-daliad wedi'i

gapio o £100 y dydd ar gyfer treuliau rhesymol a fyddai'n golygu bod yr unigolyn ar ei golled.

20 Yn ôl y cytundeb, nod rôl y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro oedd:

- darparu goruchwyliaeth ychwanegol ar gyfer y gyfradd rhedeg ariannol, gan roi cyngor ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd a chefnogi'r gwaith o'u cyflwyno;
- cynghori a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen effeithlonrwydd yn unol â sefyllfa ariannol ac adferiad y Bwrdd Iechyd;
- cefnogi'r broses o roi'r strwythurau hanfodol sydd eu hangen i gyflwyno rhaglen effeithlonrwydd ariannol ar waith;
- gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chyfarwyddwr y Gweithlu i sicrhau bod y broses o adrodd yn ôl am gynnydd yn gadarn, a bod y Prif Weithredwr yn cael gwybod am bob risg neu rwystr;
- rhoi cyngor ar yr adnoddau angenrheidiol sydd ar gael i wneud yn siŵr bod y rhaglen adfer yn cael ei chyflawni.

21 Penodwyd yr unigolyn i'r swydd, a chytunodd y Bwrdd Iechyd ar delerau'r contract ym mis Mehefin 2019, cyn llythyr y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar 19 Gorffennaf, a chadarnhad Llywodraeth Cymru ynghylch y cais am £350,000 mewn egwyddor ar gyfer Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ar 29 Awst. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar y cyllid hwn i fwrw ymlaen â'r penodiad oherwydd byddai modd defnyddio ffynonellau mewnol i'w ariannu.

22 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym fod disgwyl i'r Bwrdd Iechyd benodi'n unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wrth ddyfarnu'r cyllid hwn.

# Cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd

23 Mae'r adran nesaf yn edrych yn fanylach ar y broses ddilynodd y Bwrdd Iechyd wrth benodi'r pum aelod o staff dros dro. Drwy edrych ar benodiad pump uwch aelod o staff dros dro dros gyfnod tebyg, rydym wedi gallu cymharu a chyferbynnu'r prosesau a ddilynwyd, gan esbonio penodiad y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro mewn cyd-destun caffael ehangach.

24 Mae gan y Bwrdd Iechyd reolau clir ynghylch caffael. Maent wedi'u nodi yn ei Ganllawiau Caffael ar gyfer Staff ac yn ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog cymeradwy. Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn bodloni'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gwerth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, sydd yn eu tro yn adlewyrchu Rheoliadau Llywodraeth y DU a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Wrth ymateb i gais am wybodaeth, mynegodd y Bwrdd Iechyd fod pob un o'r pum

penodiad dan sylw wedi cael eu gwneud yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog[2].

25 Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cyfeirio at y trothwyon sylfaenol ar gyfer dyfynbrisiau a thendro cystadleuol. Mae'r trothwyon hyn yn adlewyrchu gofynion Rheoleiddiol y DU a Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd. Maent wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

Tabl 1: trothwyon y Bwrdd Iechyd ar gyfer tendro a chaffael

Mae'r tabl hwn yn dangos sut mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan gadw at y trothwyon bandio yn ei weithdrefnau a'i bolisïau ariannol.

| Gwerth y Contract (heb gynnwys TAW) | Cystadleuaeth Sylfaenol |
|---|---|
| <£5,000 | Yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr priodol |
| Rhwng £5,000 a £25,000 | Tri dyfynbris ysgrifenedig |
| £25,000 – trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd | Pedwar Tendr |
| Uwchben trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (£118,133 ar hyn o bryd) | Pum tendr |
| Contractau rhwng £500,000 ac £1 miliwn | Cymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer nodi |
| Contractau dros £1 miliwn | Rhaid cael Cymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru |

26 Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog hefyd yn nodi[3] y gellid hepgor gweithdrefnau dyfynbrisiau/tendro cystadleuol os oes gan y Bwrdd Iechyd fynediad cyfreithlon at gontract Cymru Gyfan/Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol neu gontract Consortiwm Cyflenwadau, ar yr amod y cedwir at reolau cytundeb fframwaith neu gontract o'r fath.

27 Mae cytundebau fframwaith yn gallu bod yn ffordd gosteffeithiol ac effeithlon o sicrhau nwyddau a gwasanaethau gan fod materion fel sicrhau ansawdd a'r cyfraddau uchaf wedi cael eu pennu ymlaen llaw drwy gydgytundeb. Fodd bynnag, mae llawer iawn o gytundebau, ac mae eu telerau ac amodau yn amrywio.

28 Canfuwyd bod pob un o'r penodiadau dros dro wedi cael eu gwneud drwy ddefnyddio cwmnïau oedd wedi'u rhestru ar gytundebau fframwaith cymeradwy. Mae hyn yn cyd-fynd â'r darpariaethau yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y

[2] Llythyr gan y Bwrdd Iechyd ar 24 Hydref 2019 – cyfeirnod 335/19/FOI.

[3] Yn Atodlen 1, Canllawiau Atodol ar gyfer Caffael Gwaith, Nwyddau a Gwasanaethau.

Bwrdd Iechyd ac yn y Canllawiau Caffael ar gyfer Staff, fel y nodir ym Mharagraff 26 uchod.

29 O ran y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, mae dogfennau'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod yr asiantaeth a ddefnyddiwyd, sef Hunter Healthcare Resourcing Ltd, wedi'i restru ar fframwaith GIG ar gyfer staff cyfnod penodol a dros dro heb fod yn glinigol. Fodd bynnag, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod wedi:

- ymrwymo i gontract â'r asiantaeth [Hunter Healthcare Resourcing Ltd] ar delerau y nodir eu bod yn fwy ffafriol na phe bai fframwaith perthnasol y GIG wedi cael ei ddefnyddio.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu gwybodaeth sy'n cefnogi ei arddeliad i ni ei fod, drwy drafodaethau â'r Asiantaeth, wedi sicrhau cyfradd ffafriol, a'i fod ym mhob ystyr arall wedi sicrhau'r un telerau ag y byddai wedi'u sicrhau pe bai wedi cydymffurfio'n llawn â thelerau'r cytundeb fframwaith. Nid ydym wedi datgelu rhagor o fanylion am y trafodaethau er mwyn sicrhau cyfrinachedd masnachol cyfreithlon bob parti.

31 Drwy wneud hyn, a chynnal 'mini-gystadleuaeth' yn unol ag arferion cyffredin ar gyfer personél asiantaethau unigol, mae'r Bwrdd Iechyd yn argyhoeddedig ei fod wedi cydymffurfio â'i bolisïau a'i weithdrefnau caffael. Er nad oes gennym ragor o sylwadau am yr elfen hon o'r broses gaffael, rydym yn sôn yn fanylach am y cyfraddau a dalwyd mewn gwirionedd o'u cymharu â'r cyfraddau yr oedd cyrff iechyd eraill wedi'u talu am wasanaeth Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro.

## Costau penodi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro

32 Cytunodd y Bwrdd Iechyd i dalu cyfradd o £1,890 y dydd i'r asiantaeth oedd yn cyflenwi'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, ac roedd hynny'n cynnwys ad-daliad wedi'i gapio o £100 y dydd am naw mis ar gyfer treuliau rhesymol a fyddai'n golygu bod yr unigolyn ar ei golled. Mae'r taliad yn cyd-fynd â Pholisi Treuliau'r Bwrdd Iechyd. Y gost a glustnodwyd ar gyfer y penodiad hwn dros y naw mis yw £340,200. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyfrannu £350,000 tuag at y costau hyn.

33 Gan ystyried y gost sylweddol o gyflogi Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro, aethom ati i geisio gweld sut yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi argyhoeddi ei hun fod y gyfradd ddyddiol oedd yn rhan o'r contract yn werth da am arian. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod wedi:

- meincnodi cyfradd y farchnad yn erbyn cyfraddau'r ymgeiswyr eraill, ynghyd â phrofiad y panel cyf-weld o benodiadau blaenorol mewn sefydliadau eraill, gan gofio bod pob un ohonynt wedi cael profiad o gyflogi Cyfarwyddwyr Trawsnewid/Adfer yn y gorffennol.

34 Fel yr eglurwyd yn gynharach, cyfwelwyd tri ymgeisydd ar gyfer y rôl. Roedd cyfradd ddyddiol un o'r ymgeiswyr gryn dipyn yn uwch na chyfradd ddyddiol yr ymgeisydd llwyddiannus, ac roedd cyfradd y trydydd ymgeisydd fymryn yn is. Nid ydym yn datgelu'r cyfraddau gwirioneddol er mwyn sicrhau cyfrinachedd masnachol. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu hefyd yn ymwybodol o

enghreifftiau eraill yn y cyfryngau lle'r oedd cyfraddau'n £1,700 a £3,000 y dydd. Mae costau blynyddol y cymaryddion hyn i'w gweld yn Nhabl 2 isod.

35 Yn ogystal â hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi edrych ar gyfraddau a gyhoeddwyd ar gyfer Cyfarwyddwyr Adfer/Trawsnewid sefydliadau NHS England. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: cyfraddau cyrff cymharol NHS England a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd i feincnodi cost y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro

Mae'r tabl hwn yn dangos y cyfraddau y mae rhai cyrff iechyd yn Lloegr yn eu talu am Gyfarwyddwyr Adfer Dros Dro, ac mae'n cymharu'r rhain â'r gyfradd a negodwyd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac a gytunwyd gydag asiantaeth Hunter Healthcare Resourcing Ltd. Nid ydym wedi enwi sefydliadau NHS England ar sail cyfrinachedd masnachol.

| Cymharydd – NHS England | Cyfradd fisol | Cost flynyddol |
|---|---|---|
| Cymharydd 1 | £45,000 | £540,000 |
| Cymharydd 2 | £34,000 | £408,000 |
| Cymharydd 3 | £34,000 | £408,000 |
| Cymharydd 4 | £30,000 | £375,000 |
| Cymharydd 5 | £30,000 | £360,000 |
| Cymharydd 6 | £28,000 | £338,000 |
| Cymharydd 7 | £25,000 | £300,000 |
| | | |
| Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr (contract Mehefin 2019) | £37,800 (cyfradd ddyddiol o £1,890 yn seiliedig ar fis 20-diwrnod) | £453,600 (gwerth y contract naw mis yw £340,200) |

36 At ddibenion cymharu, mae'r gost a'r gyfradd ddyddiol a gyllidebwyd ar gyfer y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro dros y cyfnod o naw mis yn cyfateb i £453,600 y flwyddyn[4]. Fel y mae Tabl 2 yn ei ddangos, mae hon yn gyfradd uwch na'r hyn a welir ar gyfer y cymaryddion yn NHS England, a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

[4] £340,200/9 mis x 12 mis.

# Gwybodaeth arall a ystyriwyd fel rhan o'n hadolygiad

37 Mae deddfwriaeth cyfryngwyr yn berthnasol yn yr amgylchiadau hyn lle mae'r unigolyn yn hawlio 'statws oddi ar y gyflogres' at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. Cyfrifoldeb y cyflogwr yw gwneud yn siŵr y cedwir at y ddeddfwriaeth yn briodol fel rhan o'i drefniadau diwydrwydd dyladwy. Aseswyd bod tri o'r uwch benodiadau dros dro o blith y pump yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'statws oddi ar y gyflogres'. Mae'r dogfennau gofynnol yn eu lle ar gyfer y tri chontract.

38 Cafwyd o leiaf un geirda ysgrifenedig gan gyflogwr diweddar ar gyfer pedwar o'r pump uwch benodiad dros dro a adolygwyd fel rhan o'r archwiliad.

39 Ni chafwyd unrhyw eirdaon ysgrifenedig ar gyfer y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ond dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym:

- cafodd geirdaon llafar eu darparu'n uniongyrchol gan PWC i Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gan Gyfarwyddwr Cyllid Ymddiriedolaeth GIG Blackpool i Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r aelod annibynnol o'r panel cyf-weld brofiad blaenorol o weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus; ac
- er mwyn cael eu cymeradwyo ar y Fframwaith, rhaid i bob cyflenwr gadw geirdaon cyfredol ar gyfer yr holl weithwyr a ddarperir.

40 Ar 12 Rhagfyr, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro Adroddiad Cydymffurfio Ariannol i gyfarfod Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cydymffurfiad o ran caffael wrth gyflogi gweithwyr dros dro yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019. Roedd yr 11 enghraifft o staff dros dro a gyflogwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Gofal Acíwt Dros Dro.

41 Dyma un o ganfyddiadau'r adroddiad o ran penodi staff dros dro:

- Nid oedd y tîm caffael wedi'u cynnwys yn y prosesau cyflogi hyn yn amserol, ac nid oedd Archebion Prynu wedi cael eu codi cyn i'r gwariant gael ei ymrwymo.

42 Mae'r adroddiad cydymffurfio yn dangos bod archebion prynu ôl-weithredol wedi cael eu codi ar gyfer chwech o'r 11 aelod o staff dros dro a gychwynnodd yn eu swydd yn ystod ail chwarter 2019-20. Roedd y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn un o'r chwe rôl a restrwyd fel rhai nad oeddent yn cydymffurfio.

# Cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran adferiad ariannol

43 Mae rôl dros dro y Cyfarwyddwr Adfer yn cynnwys dwy elfen graidd; canfod a sicrhau arbedion; a sefydlu trefniadau llywodraethu a fydd yn gallu cynnal gwell sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

44 Mae'n anodd dweud faint yn union o effaith bersonol y mae'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro yn ei chael ar ymdrechion y Bwrdd Iechyd i adfer ei hun yn ariannol, gan gofion bod staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn cyfrannu at hyn mewn gwahanol ffyrdd. Mae sawl ffactor yn effeithio ar y sefyllfa, gan gynnwys gwahaniaethau o ran amseru a gwahaniaethau yn natur unrhyw arbedion ariannol (rhai yn arbedion untro ac eraill yn rheolaidd).

45 Fodd bynnag, yn fy Asesiad Strwythuredig o'r Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2019, nodwyd bod y dull o ymdrin ag adferiad ariannol o fewn y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gryfach o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Rydym wedi gweld arweinyddiaeth ariannol glir fel rhan o'r broses adfer, gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo ar gyfer adferiad ariannol a chyfleoedd i adnabod a sicrhau arbedion. Mae ffocws y Bwrdd Iechyd ar adferiad, gafael a rheolaeth ariannol yn gryfach nag o'r blaen.

46 Fel y nodais yn fy Asesiad Strwythuredig, mae risg sylweddol o hyd i sicrhau'r £35 miliwn o ddiffyg ar gyfer 2019-20 y mae'r Bwrdd Iechyd am ei weld. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sôn am lithriant wrth geisio sicrhau'r arbedion sydd i fod i gael eu gwneud, ac o ran twf mewn costau yn ystod y flwyddyn, sydd wedi golygu bod angen dod o hyd i arbedion ychwanegol. Mae llawer o ffactorau eraill yn dal i gyflwyno heriau, ac oni fydd y rhain yn cael sylw, byddant yn arwain at risg y bydd y cylch ariannol blynyddol o ddiffygion ac ymdrechion i adfer yn digwydd dro ar ôl tro.

# Atodiad 1

## Crynodeb o’r costau oedd yn gysylltiedig â’r pump uwch benodiad a adolygwyd, ynghyd â’r telerau cyflogi oedd yn rhan o’u contract

Tabl 3: crynodeb o’r costau a’r telerau cyflogi oedd yn rhan o’r contractau

| Teitl swydd | Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro | Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro Wrecsam Maelor | Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro Ysbyty Glan Clwyd | Pennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Acíwt Dros Dro |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad Penodi Cychwynnol[5] | 1 Gorffennaf 2019 | 25 Chwefror 2019 | 24 Ebrill 2019 | 15 Ebrill 2019 | 2 Medi 2019 |
| Hyd y contract | Naw mis | Tri mis, wedi'i ymestyn am chwe mis arall | Chwe mis | 27 wythnos, wedi'i ymestyn am naw wythnos arall | 31 wythnos ond wedi dod i ben ar ôl wyth wythnos |
| Statws – Llawn Amser/Rhan Amser | Llawn Amser | Llawn Amser | Llawn Amser | Llawn Amser | Llawn Amser |
| Cyflenwr a gontractiwyd | Hunter Healthcare Resourcing Ltd | Melber Flinn Ltd | Melber Flinn Ltd | Tricordant Ltd | Xylem Resourcing Partners |

[5] Contractau a adnewyddwyd o leiaf unwaith gan arwain at fwy nag un Archeb Brynu

| Teitl swydd | Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro | Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro Wrecsam Maelor | Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro Ysbyty Glan Clwyd | Pennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Acíwt Dros Dro |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwr a gontractiwyd ar fframwaith cymeradwy? | Wedi ymrwymo i gontract â’r asiantaeth ar delerau y nodir eu bod yn fwy ffafriol na phe bai’r Bwrdd Iechyd wedi defnyddio’r fframwaith GIG perthnasol.<br>Ond mae’r cyflenwr ar Fframwaith CCS RM6160. | RM971 Ddim yn feddygol nac yn glinigol (NMNC)[6] | RM971 ar gyfer achosion heb fod yn feddygol nac yn glinigol (NMNC) | Dywedodd y Bwrdd Iechyd mai Tricordant Ltd oedd y cyflenwr, sydd ar Fframwaith Health Trust Europe (HTEF)[7] | Byddai’r contract yn cael ei drefnu drwy Tricordant Ltd, sy'n ymgynghorydd partner iddynt, sydd ar Fframwaith Health Trust Europe. |
| Cyfradd Ddyddiol a Delir i’r Cyflenwr | £1,890<br>(costau llety wedi'i gapio ar £100 y dydd) | £1,000 | £1,118 | £715 | £1,380<br>(yn cynnwys y ffioedd a’r treuliau i gyd) |

[6] Mae’r fframwaith hwn wedi dod i ben erbyn hyn ac wedi cael ei ddisodli gan RM6160 wef 1 Gorffennaf 2019. Mae Melber Flinn wedi'i restru ar y fframwaith hwn.

[7] Mae Tricordant Ltd wedi’i restru ar nifer o gontractau Fframwaith, gan gynnwys HTEF.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Eitem 3.2

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Mawrth 2020

Annwyl Nick

# Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2018-19

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 14 Chwefror 2020 sy'n nodi, yn dilyn ymateb y Comisiwn i adroddiad y Pwyllgor ar graffu ar gyfrifon 2018-19, eich bod yn gofyn am eglurder pellach ar wrthod Argymhellion 1 a 4.

Mae'r Comisiwn wedi ystyried ymhellach ei ymatebion i argymhellion eich Pwyllgor, ynghylch dangosyddion perfformiad ariannol y Comisiwn a'r targed ymgysylltu, yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth.

Nodir ei ystyriaeth yn llawn yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater yn yr atodiad, mae croeso ichi roi gwybod imi

Hoffwn ddiolch eto i'r Pwyllgor am ei waith craffu.

Yn gywir

Suzy Davies

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

# Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2018-19

## Argymhelliad 1.

**(1) Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyflwyno dangosydd perfformiad allweddol sy’n canolbwyntio ar reoli ariannol yn hytrach na tharged alldro.**

**(2) Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd yn y targed gorwariant (o 0.5 y cant i 1.5 y cant) gan ei fod yn mynd i’r afael, yn rhannol, â’n pryder am y risg o wario i gyrraedd y targed. Fodd bynnag, rydym o’r farn o hyd nad yw'r targed ei hun yn ddangosydd addas, gan nad yw'n cysylltu gwerth am arian ac effeithlonrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Comisiwn yn cael penderfynnu drosto ei hun ynghylch targedau, ond gofynnwn i fesur targed yn ystod y flwyddyn gael ei ystyried.**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Comisiwn o'r farn bod ei ddangosyddion ariannol cyfredol yn darparu mesur awdurdodol o drefniadau rheoli ariannol. Mae'r dangosyddion newydd yn rhoi sicrwydd bod cyfrifon gwir a theg yn cael eu cynhyrchu yn amserol, yn unol â'r gyllideb a gafodd ei nodi ac a fu’n destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

Nodwn fod y Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn y targed gorwariant (gan sicrhau tanwariant gweithredol o rhwng 0.5 y cant ac 1.5 y cant) ond bod ganddo bryderon nad yw hwn yn ddangosydd addas gan nad yw'n cysylltu gwerth am arian ac effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau.

Rydym wedi ystyried targedau o'r fath o'r blaen e.e. gosododd y dangosydd blaenorol darged o £500,000 o arbedion gwerth am arian. Canfuwyd nad oedd hyn yn ddangosydd addas gan fod nifer a maint y contractau a adnewyddwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol yn dylanwadu'n drwm ar lefel yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

At hynny, nod y Comisiwn yw darparu, yn ei gyllideb flynyddol, adroddiad clir a thryloyw ar ei weithgareddau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Os rhagwelir effeithlonrwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol, mae'r rhain yn rhan annatod o'r gyllideb.

Bydd Comisiwn y Cynulliad yn adolygu'r dangosyddion perfformiad corfforaethol hyn ar ddiwedd y cyfnod adrodd cyntaf, ac yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau.

## Argymhelliad 4.

**(1) Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried gosod targed mwy penodol o ran canran ar gyfer y mynegai ymgysylltu a hynny yn sgil y ffaith ei fod yn gyson rhagori ar y targed fel y’i gosodwyd ar hyn o bryd.**

**(2) Yn yr un modd ag Argymhelliad1, mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y Comisiwn wedi pennu’r targed hwn yn dilyn ymarfer meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn siomedig na phennwyd targed mwy uchelgeisiol, a gofynnwn i'r Comisiwn ailystyried hyn a myfyrio ar ei gyfres gyfan o ddangosyddion i sicrhau bod y targedau'n annog y Comisiwn i ymestyn ei hun.**

Nodwn bryder y Pwyllgor nad yw'r Comisiwn wedi gosod targed mwy uchelgeisiol ar gyfer y mynegai ymgysylltu.

Rydym yn fodlon bod y cymharydd yn feincnod priodol, ac mae ein perfformiad da parhaus yn y maes hwn yn caniatáu inni ganolbwyntio ar feysydd eraill o weithgarwch y mae angen mwy o gefnogaeth arnynt, o bosibl.

Mae'r Comisiwn yn fodlon ar berfformiad yn y maes hwn a chred y byddai gosod targed mwy uchelgeisiol wedyn yn arwain at ddargyfeirio adnoddau i'r maes hwn, (ymgysylltiad staff ar hyn o bryd) er anfantais i feysydd eraill e.e. recriwtio/cynrychiolaeth BAME.

## Argymhelliad 5.

**(1) Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi canlyniadau cyffredinol pob cwestiwn unigol yn yr arolwg staff. Dylai hyn gynnwys data cymharol dros gyfnod o dair blynedd.**

**(2) Croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad y Comisiwn i ymgynghori â staff ynghylch cyhoeddi canlyniadau'r arolwg staff blynyddol. Byddwn yn croesawu diweddariadau ar y fenter hon, pan fyddant ar gael.**

Bydd y Comisiwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cynnal ymgynghoriad.

# Eitem 3.3

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Mawrth 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Ein Hymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus COVID-19**

Gan nad oedd modd imi gwrdd â'r Pwyllgor yn gynharach yr wythnos hon i roi gwybod sut rydym yn ymateb i'r argyfwng presennol, roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth i'r Pwyllgor pe bawn yn ysgrifennu i amlinellu'r materion yr hoffai, o bosibl, gael sicrwydd penodol arnynt. O reidrwydd, ciplun yw'r llythyr hwn gan fod y sefyllfa'n newid drwy'r amser a, heb os, bydd peth o'r hyn rwy'n ei ddweud yn dyddio'n gyflym. Ond dyma ble rydym arni adeg ysgrifennu.

Mewn ymateb i'r amgylchiadau digynsail hyn, rydym ni yn Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i roi cymaint o adnoddau â phosibl i'r galwadau newydd sydd arnom. Mae yna oblygiadau i'r weinyddiaeth i gyd, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymorth corfforaethol, o ran sut rydym ni fel gwasanaeth sifil yn cefnogi'r Gweinidogion i ddelio â'r argyfwng. Ar lefel swyddogion, mae gwaith Llywodraeth Cymru yn cael ei gydlynu gan grŵp newydd yr wyf wedi'i sefydlu ac yn ei gadeirio. Mae'n cwrdd bob wythnos a'i rôl yw gwneud penderfyniadau sefydliadol a rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnaf fel Ysgrifennydd Parhaol ein bod yn cefnogi'r Gweinidogion yn effeithiol i ymateb i'r argyfwng, diogelu arian cyhoeddus a gofalu am les staff a'r Gweinidogion.

Yn y sefydliad drwyddo draw, rydym wedi ailgyfeirio adnoddau staff i ganolbwyntio ar gefnogi Ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Rydym wedi tynnu ar ddysgu blaenorol, yn enwedig y trefniadau a roesom yn eu lle i reoli'r perygl o Ymadael â'r UE heb gytundeb. Mae'r adroddiad blaenorol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ein paratoadau bryd hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn inni yn y sefyllfa hon. Mae pob un o'r Grwpiau wedi adolygu ei drefniadau Parhad Busnes a bellach wedi ailgyfeirio

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

adnoddau ble bynnag y bo modd. Ar yr un pryd, rydym wedi darparu adnoddau ar gyfer ein Canolfan Rheoli Argyfwng, sef y cyfleuster yr ydym yn ei roi ar waith yn ystod argyfwng i reoli a lledaenu'r holl wybodaeth sy'n dod i law. Mae angen cryn dipyn o adnoddau ar y Ganolfan ac rydym yn gofyn i bob rhan o'r weinyddiaeth gyfrannu staff i fynd ar secondiad i'r tîm. Rydym yn darparu adnoddau ar gyfer y galwadau newydd eraill mewn modd tebyg, naill ai drwy'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn adleoli staff o fewn eu Grwpiau neu drwy symud staff rhwng Grwpiau.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu fel sefydliad i gefnogi pobl a busnesau Cymru yn ystod yr argyfwng presennol yn aruthrol. Rydym yn gweithio'n gyflym i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau, er enghraifft, ymateb sy'n golygu y byddwn yn cefnogi mwy o dderbynwyr cyllid nag y mae Llywodraeth Cymru erioed wedi'i wneud o'r blaen.

Rwy'n falch iawn o ddweud wrth y Pwyllgor fod yr ymateb gan staff drwy'r sefydliad cyfan i'r gofynion brys a dwys o ran cefnogi'r Gweinidogion i fynd i'r afael â'r argyfwng wedi bod yn eithriadol. Rwy'n falch o'r gwasanaeth sifil a'r ffordd y mae'n ymateb.

Ddiwedd y dydd, dydd Gwener diwethaf, roedd 102 o aelodau o staff yn dweud eu bod yn hunanynysu, ac roedd 14 wedi'u cofnodi'n sâl gyda symptomau COVID-19. Rydym yn disgwyl i'r rhif hwn gynyddu'n gyflym yn y dyddiau nesaf. Wrth i'r argyfwng ddatblygu, gallwn ddisgwyl y bydd yn effeithio ar ragor o staff. Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, gofynnwyd i bob aelod o staff weithio gartref ble bynnag y bo modd ac rydym yn disgwyl mai ychydig iawn fydd angen mynd i'r swyddfa ei hun. Rydym wedi gorfod cau rhai o'n swyddfeydd oherwydd argaeledd staff ac rydym yn rhag-weld y bydd nifer y swyddfeydd y mae angen inni eu cau yn cynyddu. Rydym wedi'i gwneud yn glir, fodd bynnag, nad ydym ni fel sefydliad yn cau – dim ond yn gwasgaru. Bydd staff yn parhau i weithio fel yr arfer gymaint â phosibl, ond drwy ddulliau gweithio o bell.

Ysgrifennais at aelodau o'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus ar 23 Mawrth i'w diweddaru ar argyfwng COVID-19, a'u sicrhau bod Llywodraeth Cymru, gan fanteisio ar alluedd y system TGCh newydd, yn dal i fod ar agor. Rydym yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn eglur â'n cyrff cyhoeddus i roi gwybod iddynt am y camau yr ydym yn eu cymryd ein hunain ac i ddysgu o'u profiad hwythau. Rwy'n bod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff cyhoeddus yn cael gwybod yn rheolaidd am y camau yr wyf i, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn eu cyflwyno yn Llywodraeth Cymru, fel y'u hamlinellir yn y llythyr hwn.

Mae yna enghreifftiau ardderchog yn dod i'r golwg o weithio ar draws y sector cyhoeddus – er enghraifft, sefydliadau yn cydlynu ac yn rhannu gwybodaeth, mewn modd gofalus sy'n cydymffurfio â'r rheolau perthnasol, er mwyn darparu cymorth effeithiol i ddinasyddion agored i niwed. Rydym yn gweithio gydag eraill i geisio darparu arweinyddiaeth ac i gydlynu ymdrechion, yn enwedig ar hyn o bryd mewn perthynas â'r trefniadau gwarchod sy'n cael eu rhoi ar waith. Dim ond drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector y bydd y trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Yn rhan o'r broses o ailystyried pa waith corfforaethol y gallwn ei ailbroffilio, rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn i Archwilydd Cyffredinol Cymru am y ddeialog adeiladol sydd rhyngom ynghylch gohirio cwblhau ein cyfrifon eleni tan yr hydref. Yn hynny o beth, un o'r trafferthion sy'n ein hwynebu yw'r oedi (dealladwy o dan yr amgylchiadau) o ran cael gwybodaeth gan rai o'n cyrff cyfansoddol. Mae amserlen estynedig i baratoi'r cyfrifon yn ein galluogi i ailgyfeirio staff medrus i waith COVID-19 ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hymdrechion. Rydym hefyd wedi atal bron y cwbl o'n gwaith archwilio mewnol ein hunain ynghyd â chyfarfodydd ein Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y gwanwyn. Mae gan ein harchwilwyr mewnol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn weithwyr cyllid proffesiynol, sgiliau gwerthfawr sy'n cael eu hadleoli ar draws y sefydliad i gynorthwyo'r ymateb.

Rydym yn bod yn ofalus, serch hynny, i barhau i gynnal ein gallu gwrth-dwyll. Mae'n ffaith drist y gall twyllwyr weithiau weld argyfwng mawr fel cyfle i dwyllo gan feddwl na fyddem o bosibl yn gwirio pethau mor ofalus ag arfer. Mae angen inni felly fod yn arbennig o effro i hyn. Rydym yn sicrhau ein bod yn manteisio ar y canllawiau defnyddiol sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer y DU yn hynny o beth.

Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth o'r blaen ynglŷn â rhoi ein system TGCh newydd ar waith y llynedd. Er nad oeddem yn ymwybodol o'r pwysigrwydd ar y pryd, mae'r system newydd wedi bod yn gwbl hanfodol i'n galluogi i ymateb yn briodol i'r argyfwng hwn. Gall y Gweinidogion a staff weithredu o bell diolch i'r system effeithiol ac effeithlon. Rydym wedi cynyddu ein gallu i weithio o bell ac mae'r system wedi'i chynnal yn gadarn hyd yma. Mae llawer ohonom (a minnau yn eu plith!) wedi meithrin sgiliau gwell yn gyflym ac yn ddwys i wneud defnydd effeithiol o'r offer newydd sydd gennym i weithio o bell.

Rwyf i fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, a'r rhai yr wyf wedi'u dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, yn ymwybodol iawn bod ein cyfrifoldebau yn parhau drwy gydol y sefyllfa hon. Mae angen inni sicrhau ein bod yn dal i ddiogelu pwrs y wlad ond hefyd gydnabod bod galwadau unigryw'r sefyllfa sydd ohoni yn golygu y bydd rhaid inni wneud rhai pethau mewn ffordd wahanol yn ystod yr argyfwng.

Rydym yn nodi prosesau sydd angen eu symleiddio er mwyn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym wrth gynnal y mesurau diogelu hanfodol i ofalu am arian cyhoeddus yn briodol a bod yn atebol yn ddiweddarach am sut a pham y'i gwariwyd. Rwy'n cydnabod bod yr argyfwng presennol yn golygu bod angen inni gynyddu, yn ddethol, ein hawydd am risg. Rwyf wedi gofyn i'm Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol fod mor hyblyg, cyflym ac ymatebol ag y gallant, gan gofio ein cyfrifoldebau i ddiogelu pwrs y wlad. Rydym hefyd wedi rhoi canllawiau diwygiedig i dimau polisi ac i bob tîm sy'n delio â thaliadau grant. Yn ogystal, rydym wedi cryfhau'r timau canolog sy'n delio ag ymholiadau ynghylch llywodraethu a grantiau, gan eu galluogi i ymateb yn effeithiol i'r ymholiadau niferus sy'n dod i law gan staff sy'n gofyn am arweiniad.


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae’r rheidrwydd sydd arnom i weithio ac ymateb yn eithriadol o gyflym yn effeithio hefyd ar y ffordd yr ydym yn cofnodi penderfyniadau a’r rhesymau dros eu gwneud. Yn y sefyllfa sydd ohoni, ni fydd hi bob amser yn bosibl llunio dadansoddiad ysgrifenedig llawn cyn gwneud penderfyniad fel y byddem fel arfer yn ei ddisgwyl. Yn yr achosion hynny, byddwn yn llunio ôl-nodyn ar gyfer y cofnodion sy’n egluro cyd-destun a rhesymeg y penderfyniad. Rydym hefyd wedi rhoi trefniadau yn eu lle i gadw cofnod o wariant sy’n ymwneud yn benodol â COVID-19.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn helpu i roi syniad i’r Pwyllgor o’r modd yr ydym yn ymateb i fynd i’r afael â’r argyfwng hwn. Rwy’n benderfynol o gynnal y safonau y byddai’r Pwyllgor yn eu disgwyl ohonof. Gobeithio y bydd y Pwyllgor, yn ei dro, yn cydnabod bod angen i minnau gymryd risgiau ymwybodol a gofalus na fyddwn yn debygol o’u cymryd pe na bai’r amgylchiadau mor ddifrifol.

yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Eitem 3.4

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

14 Ebrill 2020

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau

**Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20**

Mae staff Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos dros y pythefnos diwethaf i asesu effaith argyfwng COVID-19 ar y gwaith o baratoi adroddiad a chyfrifon blynyddol 2019-20 i'r holl sefydliadau hynny sy'n cyfrannu at sefyllfa gyfunol Llywodraeth Cymru. Yn benodol, rydym wedi siarad yn helaeth â chydweithwyr ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i drafod effaith debygol yr argyfwng digynsail hwn ar staff yn y cyrff iechyd.

O ganlyniad, rydym ar y cyd wedi cytuno ar gynllun diwygiedig a fyddai'n symud dyddiad cymeradwyo adroddiad blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru i'r wythnos sy'n dechrau 26 Hydref 2020. Mae hyn yn naw wythnos o oedi o'i gymharu â'r cynllun presennol gan ganiatáu pedair wythnos ychwanegol i'r cyrff iechyd, pythefnos pellach ar gyfer archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru a thair wythnos wrth gefn rhag ofn y bydd oedi pellach yn y cyrff iechyd, ein Cyrff Hyd Braich neu'r archwiliad. Mae'r oedi hwn yn cyd-fynd â'r amserlenni y cytunodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Thrysorlys Ei Mawrhydi arnynt ag adrannau Whitehall.

Yn wreiddiol, cynigiodd ein timau estyniad hwy ar gyfer y cyrff iechyd. Ond er y byddai amser ychwanegol yn ddefnyddiol, teimlai swyddogion iechyd y byddai dal angen i staff wneud y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi cyfrifon cyn y brig yn nifer yr achosion o COVID-19.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Credwn fod yr amserlen ddiwygiedig yn realistig o ran erbyn pryd y bydd modd cwblhau'r cyfrifon eleni. Serch hynny, mae sawl risg a allai effeithio ar y cynllun diwygiedig, gan gynnwys:

- Argaeledd staff drwy gydol y broses
- I ba raddau y mae gweithio ac archwilio o bell yn bosibl ar gyfer pob sefydliad sy'n helpu i baratoi ac archwilio'r cyfrifon cyfunol
- Ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gweithio sydd ar gael i'w harchwilio
- Argaeledd y Pwyllgorau a'r Byrddau Archwilio a Risg (hyd yn oed drwy rith-ddulliau) i gymeradwyo'r cyfrifon cyn i'r Swyddog Cyfrifyddu eu llofnodi.

Gobeithio y bydd yr amserlen ddiwygiedig arfaethedig yn dderbyniol i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Serch hynny, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos ac yn rhoi gwybod ichi os bydd angen aildrefnu pethau ymhellach.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| **Shan Morgan** | **Adrian Crompton** |
| Ysgrifennydd Parhaol / Permanent Secretary | Archwilydd Cyffredinol Cymru / Auditor General for Wales |
| Llywodraeth Cymru / Welsh Government | |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Ebrill 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Dull Llywodraeth Cymru o Ymateb i'r Argyfwng Iechyd y Cyhoedd yn sgil COVID-19**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill ac am eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 20018-19. Byddwn, wrth gwrs, yn adolygu'r copi yr ydych yn bwriadu ei ddarparu ar wahân i Lywodraeth Cymru ac yn ystyried ei gasgliadau yn ofalus wrth ddrafftio Cyfrifon 2019-20. Ni fydd aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol eto o'r ffaith y bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar baratoi Cyfrifon 2019-20 yn fuan, yn sgil y pwysau presennol ar y Llywodraethau datganoledig ac adrannau yn Whitehall. Er nad yw'n debygol y bydd unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir am lywodraethu, taliadau cydnabyddiaeth a datganiadau ariannol craidd, bydd Trysorlys Ei Mawrhydi yn argymell bod sefydliadau'r Llywodraeth yn lleihau cynnwys yr adroddiad ar y cyfrifon yn sylweddol. Byddaf yn trafod y canllawiau newydd gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyntaf ac yna'n anfon unrhyw newidiadau arfaethedig i gynnwys Cyfrifon 2019-20 ymlaen at aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w hystyried.

Gwnaethoch hefyd godi nifer o faterion eraill yr hoffwn fynd i'r afael â nhw.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Er bod cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cael eu gohirio tan o leiaf mis Mehefin, mae swyddogion yn parhau i anfon copïau o bapurau perthnasol ymlaen at aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae hyn yn wir am y Pwyllgorau Archwilio a Risg ar lefel grŵp a lefel Llywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â chyfarwyddwyr anweithredol eraill. I'r perwyl hwn, cyfarfu aelodau Bwrdd Llywodraeth Cymru ar 25 Ebrill er mwyn briffio’r cyfarwyddwyr anweithredol ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng COVID-19.

O ran cofnodi penderfyniadau a wnaed, rwyf eisoes wedi ysgrifennu at fy holl swyddogion cyfrifyddu ychwanegol i bwysleisio pwysigrwydd cynnal a chadw cofnodion o’r anghenion sy’n cael eu diwallu, y rhesymau dros wneud penderfyniadau ac unrhyw risgiau posibl. Yn ogystal â hynny, mae unrhyw ganllawiau atodol a roddwn i staff mewn perthynas â gwariant i fynd i'r afael â COVID-19 hefyd yn cael eu defnyddio i bwysleisio'r angen hwn i gadw cofnodion.

Yn gywir,



**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Ebrill 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Ymchwiliad Annibynnol Cwnsler y Frenhines**

Bydd y Pwyllgor wedi gweld y Datganiad Ysgrifenedig a ryddhawyd gan y Prif Weinidog heddiw ynghylch digwyddiadau yn sgil marwolaeth drasig Carl Sargeant. Dywed y Prif Weinidog yn ei Ddatganiad y gwnaeth ef wahodd Syr Brendan Barber i siarad â'r bobl berthnasol i weld a fyddai'n bosibl dod o hyd i ffordd ymlaen. O ganlyniad, mae Syr Brendan wedi gwneud dau argymhelliad i'r Prif Weinidog: sef na ddylai'r Ymchwiliad Annibynnol fynd rhagddo, ac y dylai Llywodraeth Cymru dalu'r costau cyfreithiol rhesymol sydd gan y teulu Sargeant yn weddill. Mae'r Prif Weinidog wedi penderfynu derbyn a gweithredu'r ddau argymhelliad.

Cyffyrddodd y Pwyllgor ag agweddau ar y digwyddiadau hyn, ac yn benodol yr ymchwiliad cysylltiedig i honiadau o ryddhau gwybodaeth yn answyddogol, pan oeddwn i a'm cydweithwyr yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn yr hydref y llynedd ar y cyfrifon blynyddol. Roeddwn felly'n credu ei bod yn briodol ysgrifennu atoch yn ffurfiol ynglŷn â'r materion hyn.

Yn unol ag argymhelliad Syr Brendan, mae'r Prif Weinidog wedi cytuno y dylai Llywodraeth Cymru dalu'r costau cyfreithiol sydd gan y teulu yn weddill. Mae'r rhesymau dros gredu bod budd cyhoeddus i'r cam eithriadol hwn yn cael eu crynhoi yn ymateb y Prif Weinidog i Syr Brendan, sydd ynghlwm â'r Datganiad. A minnau'n Brif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru rwyf wrth gwrs wedi bod yn ymwneud yn agos



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

â chynghori'r Prif Weinidog ar y mater hwn. Mae'r camau a nodir yn llythyr y Prif Weinidog yn gyson â'r cyngor a roddais.

Byddaf wrth gwrs yn ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gan y Pwyllgor ynglŷn â'r taliad neu unrhyw agwedd arall ar y digwyddiadau hyn, naill ai'n ysgrifenedig neu mewn sesiwn dystiolaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymchwiliad Annibynnol Cwnsler y Frenhines** |
| **DYDDIAD** | **21 Ebrill 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford, Prif Weinidog** |

Yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 11 Gorffennaf y llynedd, yn dilyn casgliad Cwest y Crwner i farwolaeth drasig Carl Sargeant, dywedais wrth yr Aelodau fy mod yn credu y byddai'n briodol inni gael cyfnod o adlewyrchu, ac y byddwn innau hefyd yn asesu pa gamau y dylid eu cymryd, mewn ymgynghoriad â'r teulu Sargeant ac eraill perthnasol.

Estynnais wahoddiad i Gadeirydd ACAS Syr Brendan Barber, gan weithredu mewn rhinwedd bersonol, i siarad â'r bobl berthnasol i weld a fyddai'n bosibl dod o hyd i gytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Rwy'n hynod ddiolchgar i Syr Brendan am gytuno i wneud y gwaith hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i deulu'r diweddar Carl Sargeant a'r cyn Brif Weinidog Carwyn Jones am eu hymwneud adeiladol â'r broses.

O ganlyniad i'w drafodaethau, mae Syr Brendan wedi gwneud dau argymhelliad imi. Y cyntaf yw na ddylai'r Ymchwiliad Annibynnol fynd rhagddo, a'r ail yw y dylai Llywodraeth Cymru dalu'r costau cyfreithiol rhesymol sydd gan y teulu Sargeant yn weddill. Rwyf wedi penderfynu derbyn a gweithredu'r ddau argymhelliad. Rwy'n atodi copïau o'r llythyrau rhwng Syr Brendan a minnau gyda'r Datganiad hwn. Mae'r llythyrau hyn yn amlinellu canlyniadau'r trafodaethau a'i argymhellion ef, ynghyd â'm hymateb innau.

Rwy'n gwybod y bydd pawb a fu'n rhan o hyn yn awr yn rhannu'r dymuniad i ddod â'r trin a thrafod cyhoeddus ynglŷn â marwolaeth drasig Carl i ben, gan alluogi pob un ohonom i'w gofio fel gŵr, tad, cydweithiwr a chyfaill gwerthfawr.

**Sir Brendan Barber**

Mr Mark Drakeford AM
First Minister of Wales

14 April 2020

Dear First Minister

**<u>The death of Carl Sargeant and the IQCI</u>**

You asked me in December if I would consider taking on a mediating role to explore with the family of Carl Sargeant and the Former First Minister Carwyn Jones whether common ground could be established on the most appropriate way forward. The background to this, as you well know, was that in the wake of Carl's death it had been decided to establish an independent, QC led, investigation (IQCI) to consider the actions and decisions of the Former First Minister. Since that decision however other events have intervened, including protracted exchanges on the proposed working methods of the IQCI, an internal Welsh government leak enquiry, and notably a Coroners' Inquest into the death of Carl Sargeant as a result of which a great deal of evidence concerning the actions and decisions of the former First Minister has been considered on which he has been questioned extensively and publicly. These intervening events have resulted in decisions by the government up to this point to pause the investigation and have led to a questioning on whether the IQCI is now an appropriate and proportionate way of considering any outstanding matters.

Having accepted your December request, I have now had the opportunity to discuss all these issues extensively with members of the Sargeant family (Bernadette Sargeant and Jack Sargeant and their legal adviser Neil Hudgell), and with the Former First Minister Carwyn Jones. I also had the benefit of a meeting with Paul Bowen QC to understand his perspective on the current position.

It is clear to me from all these discussions how painful and damaging have been the consequences for everyone affected by the death of Carl Sargeant and, of course, for the family in particular. This has been exacerbated by the fact that it is now over two years on from Carl's death and yet it has not been possible to reach any kind of closure. This long period has been marked by continuing uncertainty on how unresolved matters may be addressed and, in some areas, contentious legal exchanges. Yet my discussions with the parties suggest strongly to me that on all sides there is now a strong, shared appetite to resolve outstanding matters.

I have facilitated exchanges between the FFM and the family on the FFM's handling of the decisions around Carl's departure from the Welsh Government. I hope these

exchanges have been helpful to the family, but I well recognise that there will always I suspect remain a host of unanswered questions in their minds. Looking to the future perhaps more importantly, we have discussed the strong wish on both sides to move on from public discussion on Carl's death and all the desperately unhappy circumstances surrounding that.

Inevitably the publication by the FFM of his political memoirs later this year will bring some renewed reporting around those events, but he shares the family's strong wish to minimise any revived public interest in Carl's death. Both sides have confirmed to me that they have no wish to prolong any ongoing controversy.

Against this background and having reflected very carefully on what is needed to achieve a just sense of closure to this whole period, I have two recommendations to you as First Minister.

My first proposal is that it would be most appropriate for you to terminate the work of the IQCI. (This of course implies no adverse comment of any sort on the handling of the IQCI up to this point). In my judgement, however, the actions and decisions of the FFM have now been extensively scrutinised and questioned through the public processes of the Coroners' Inquest. I do not consider that the additional significant level of public expenditure that would need to be devoted to the IQCI would be justified. Perhaps just as importantly I do not consider that the additional time needed to complete such an investigation (estimated by Paul Bowen QC to be 12 months) would be in anyone's interest. My view on terminating the IQCI is supported by both the family and the FFM. The family have been through a traumatic two years and questions inevitably remain to which answers may never be found. But they feel that now is the time to seek some form of closure.

My second recommendation concerns Welsh Government financial support to meet the legal costs incurred by the Sargeant family, throughout the period since Carl's death. I understand that the family's legal costs around the relevant judicial review proceedings and the IQCI have been underwritten by the Welsh Government. That still however leaves very extensive costs associated with the Inquest.
It would seem wrong to me for this whole episode to be concluded with an ordinary family like the Sargeants to be at risk of being left with any significant outstanding legal bills. The FFM's legal expenses throughout have, quite rightly, been covered by the Welsh Government as I understand it, as they derive from actions and issues arising during his term in office. But I think it would only appear equitable that the Government should be prepared to make equivalent support available to the family.

As a result of without prejudice discussions it has been established that a payment to the family's legal representatives (in addition to the legal costs already reimbursed) of £220,000 inclusive of VAT would meet all reasonable outstanding legal costs. I hope you would be prepared to support such a payment. The family have confirmed to me that, if approved, this financial support would mark a closure in the process of examining issues surrounding Carl's death, and that, from the family's point of view, no further legal action would be contemplated.

I have made the recommendation in respect of the payment of the family’s legal expenses on the basis of the exceptional circumstances of Carl’s tragic death and taking account of the scrutiny given to the actions of the FFM at the inquest.

I hope that this letter provides a helpful summary of my discussions with the parties. I hope too that my recommendations will be acceptable to you as the basis on which all the parties can draw this unhappy episode to a close.

Yours sincerely

Sir Brendan Barber

Cc Jack Sargeant, Neil Hudgell, Carwyn Jones

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sir Brendan Barber

17 April 2020

Dear Sir Brendan

**The Death of Carl Sargeant and the IQCI**

Thank you for your letter of 14 April setting out the outcome of your discussions and your recommendations to me. I was most grateful to you for accepting my request to play a mediating role with the parties concerned to see if an agreed way forward could be found. I am also grateful to the family of the late Carl Sargeant and to the former First Minister Carwyn Jones for their constructive engagement. I appreciate that it will not have been easy for them.

Having considered their wishes, as reported in your letter, and the considerations of the public interest set out below, I accept both of the recommendations which you have made to me. I agree that there would be considerable public cost and, given the extent to which matters have been rehearsed at the Inquest, little to be gained, by continuing with the Independent QC Investigation, and I will now be taking steps to bring it to a close. I am grateful to the Independent Investigator Paul Bowen QC and his team for their work.

I confirm that the Welsh Government will in the next few days be making the payment of £220,000 (inclusive of VAT) to the legal representatives, as the reasonable outstanding legal costs of the family, as recommended in your letter. This payment will be made on the understanding that you have established, that this will bring an end to the examination of issues surrounding Carl's death. From the family's point of view this will prevent further prolonging of the distress they have experienced and no further legal action would be contemplated by them.

This reimbursement of that element of the legal costs which the Welsh Government has no obligation to meet is an exceptional step and should not be seen as setting any kind of precedent. To a large extent the proceedings of the Inquest covered the same ground as the remit of the Investigation, where the Welsh Government would have been contractually committed to meeting the legal costs of the family (under the terms in which the Investigation was established). As you set out in your letter, the costs which would be incurred by

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

continuing with the Investigation are not justifiable. I have concluded therefore that this payment is in the public interest and represents a substantial net saving to the public purse.

I will report this outcome to the Senedd by publishing your letter to me and this reply.

Thank you again for your work in helping bring this important matter to a close.

I am copying this letter to Jack Sargeant AM, Carwyn Jones AM, and Neil Hudgell.

Best wishes



**MARK DRAKEFORD**

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ebrill 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Cyfarwyddyd Gweinidogol**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth. Gan mai hwn oedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf i gael ei gyhoeddi yng Nghymru, rwy'n falch bod y Pwyllgor yn teimlo bod y weithdrefn wedi gweithio'n dda. Rwyf hefyd yn falch bod y Pwyllgor o'r farn bod y sesiwn graffu yn adeiladol. Cafwyd cipolwg defnyddiol ar y profiad cyntaf hwn yn sylwadau'r Pwyllgor ar y broses Cyfarwyddyd Gweinidogol.

Mae sesiwn gwersi a ddysgwyd adeiladol wedi cael ei chynnal gyda Chlercod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwyd mân welliannau gweithdrefnol yn ystod y sesiwn honno, gan gynnwys,

- ystyried y gofyniad i 'ymgynghori' â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ar gynigion treth. Ni all CThEM roi barn ffurfiol nes y bydd trefniadau gweithredu cynllun manwl ar waith. O ganlyniad, ni allant 'ymgynghori' yn ffurfiol ar gynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Nid yw hyn yn golygu na ddylid ymgysylltu fel y bo'n briodol â CThEM pan fydd cyrff Sector Cyhoeddus Cymru yn gwneud trefniadau treth yn gyffredinol.

- egluro y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pan fydd Cyfarwyddyd Gweinidogol yn cael ei gyhoeddi. Bydd hefyd yn rhoi copi o'r hysbysiad i Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor pwnc

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

perthnasol yn y Cynulliad. Gwneir hyn er mwyn helpu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i benderfynu ar y ffordd orau i gyflawni'r gwaith craffu yn y Cynulliad.

Y bwriad oedd diweddaru'r ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn 2020/21 a chynnwys y diweddariadau hyn. Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi effeithio ar y cynlluniau hynny. Byddaf yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Pwyllgor maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r newidiadau a wnaed yng nghyllideb Llywodraeth y DU i gynyddu'r trothwy a dileu'r rhwystr i uwch-staff clinigol weithio oriau ychwanegol. Rydym yn gwybod mai ychydig iawn o ddiddordeb a ddangosodd clinigwyr mewn cymryd rhan mewn trefniadau 'y cynllun sy'n talu' a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd yn 2019-20, cyn mesurau uwchgyfeirio COVID-19. Fodd bynnag, ni fydd gennym gyfansymiau pendant am beth amser eto mewn perthynas ag atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r perwyl hwn yn y dyfodol.

Diolch ichi am yr hyn a ddywedoch yn eich llythyr am y ffaith bod y Pwyllgor yn teimlo ei fod wedi cynnal deialog adeiladol â Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Rwy'n ddiolchgar am y ffordd y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â rhai o'r materion mwy sensitif. Bydd fy Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a minnau bob amser yn ceisio bod mor agored ag y gallwn gyda'r Pwyllgor, gan gydnabod y bydd angen gwneud trefniadau arbennig ar adegau er mwyn caniatáu inni wneud hynny.

Yn gywir, Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon